Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Gorffennaf	1	Parchg Hywel Wyn Richards Cymundeb Cwrdd Eglwys i drafod y posiblrwydd i greu gofalaeth
	8	Sul y Cyfundeb yn Tabernacl Efail Isaf Ni fydd gwasanaeth yn ein capel ni ond mae croeso i bawb ymuno yn yr oedfa yn Efail Isaf. Os ydych am fynd gellir trefnu cludiant. Cysylltwch âg un o'r swyddogion.
	15	Parchg Gerwyn Jones
	22	Parchg Hywel Wyn Richards
	29	Parchg Hywel Wyn Richards Cwrdd Eglwys Blynyddol i drafod yr Adroddiad
Awst	5	Parchg Gerwyn Jones Cymundeb
	12	Parchg Byron Davies
	19	Gwasanaeth Aelodau
	26	Parchg Gerwyn Jones
Medi	2	Parchg Hywel Wyn Richards Cymundeb
	9	Parchg Robin Samuel
	16	Mr Emlyn Davies
	23	Parchg Hywel Wyn Richards
	30	Parchg Gerwyn Jones

Tabernacl Porthcawl

HAF 2018

Darllen Gweddi'r Arglwydd

Y bore 'ma Roeddwn yn darllen Gweddi'r Arglwydd yn efengyl Mathew (6:9-13) ac fe'm trawodd gymaint gwell yw ei darllen yn ara' bach na'i hadrodd yn fecanyddol; cael cyfle yn hamddenol i ystyried pob cymal yn ofalus oherwydd y maent mor gyfoethog.

Rhoddodd Iesu enghreifftiau o ffyrdd i'w hosgoi wrth weddïo: peidiwch pentyrru geiriau fel y paganiaid, peidiwch gwneud sioe o'ch hunain fel y Phariseaid. Os yw gweddïau'r Phariseaid yn hunangyfiawn a gweddïau'r paganiaid yn fecanyddol, y mae gweddi'r Cristion i fod yn ddidwyll yn hytrach na rhagrithiol, yn feddylgar yn hytrach na mecanyddol. Nid ail-adrodd geiriau yn ddisynnwyr ond cynnal gwir gymundeb gyda'n Tad sydd yn y nefoedd.

Gweddïwch fel hyn, meddai Iesu: Ein Tad ... ein Tad, sy'n setlo'n perthynas â Duw, ac â'n gilydd. Os yw Duw yn Dad i mi ac yn Dad i tithau, rydym ni yn blant i Dduw ac yn chwiorydd a brodyr i'n gilydd. Ein Tad yn y nefoedd - nid ei fod e'n hen foi a barf wen lan fanna rhywle ond y mae yn uwch, yn well, yn fwy gogoneddus na ni. Y mae yn fwy nerthol, yn fwy anrhydeddus - ac eto yn Dad. Yn wir yn fersiwn Luc y mae'r weddi yn dechrau yn syml, Dad, sy'n hyfryd hefyd oherwydd mae'n pwysleisio ei agosatrwydd.

Mae Duw yn llond pob lle,
presennol ym mhob man,
y nesaf yw efe,
o bawb at enaid gwan.

Y mae Ef 'gyda' ni, o'n 'hochor' ni, 'drosom' ni. Ie, meddai'r salmydd, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnwn niwed, canys yr wyt Ti gyda ni, dy wialen a'th ffon â'm cysurant. Y mae'n werth aros, a myfyrio a gorffwys ar y gwirionedd hwn. Gellir gwneud hynny, wrth gwrs, pan bo ni'n darllen y weddi.

Sancteiddier dy enw. Hawdd i'w ddweud, beth mae'n golygu? Rwy'n hoff o fersiwn beibl.net fan hyn, 'Dyn ni eisiau i'th enw Di gael ei ogoneddu. O ddarllen hyn yn ara' bach cawn gyfle i ofyn - Ydw i yn fy mywyd bob dydd yn anrhydeddu enw Duw?

Ydych chi'n dilyn yr hyn rwy'n ceisio'i ddweud?
Beth am ddarllen y weddi yn ara' bach, gan aros a myfyrio ar bob cymal - y mae, O! Mor gyfoethog.

Gerwyn Jones

MYFYRDOD - ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD
Bwriadwn ail gychwyn yr astudiaethau cyn diwedd Mis Medi. Diolch i Gerwyn Jones am fod mor barod i'n harwain.

CWRDD SWYDDOGION
Mae y swyddogion yn cyfarfod yn fisol i drafod gweithgareddau yr Eglwys. Os oes rhywbeth y dymunech i ni drafod cysylltwch âg un o'r swyddogion.

YSBYTY
Yn ystod y misoedd diwethaf mae Barbara Jones wedi bod yn yr ysbyty am sawl cyfnod. Wrth fynd ati i roi y cylchlythyr yma at ei gilydd y gobaith yw y gall fynd yn ol i'w chartref gyda gofal amdani. Cofiwn amdani hi ag Anne a'r teulu yn ein gweddiau ynghyd â nifer o'n haelodau sydd yn dioddef mewn gwahanol ffyrdd.

Dymunwn yn dda i'n Trysorydd Derek Pearce wedi iddo ef dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

BANC BWYD
Diolch i bawb sy'n dal i gyfrannu i'r Banc Bwyd. Anodd iawn i ni sydd yng nghanol ein digon yw clywed fod galw mawr ar y Banc Bwyd yn ein hardal. Diolch i Tom a Rhiannon am gyrchu y nwyddau i'r ganolfan yn rheolaidd.

SADWRN SIARAD
Mae y Boreau Coffi yma yn mynd o nerth i nerth. Mae yn gyfle gwych i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg ac i ddod i adnabod Cymry Cymraeg mewn awyrgylch gymdeithasol. Dewch i sgwrsio gyda'r dysgwyr ac i fwynhau cwpaned a rhywbeth i fwyta ar yr un pryd.

CYNNAL A CHADW
Bu i nifer ohonom gwrdd fel swyddogion â defnyddwyr y Neuadd i drafod unrhyw broblemau. Ar y cyfan roedd pawb yn hapus gyda'r cyfleusterau a'r adnoddau sydd ar gael yn y Neuadd.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG
Dyma amserlen y cyfarfodydd fydd yn cymryd lle yn 2018.

Gorffennaf 8fed.– Dydd Sul yn Efail Isaf - Oedfa'r Cyfundeb

Medi 26ain - Nos Fercher Minny Street Caerdydd - Apêl Madagascar.

CYMORTH CRISTNOGOL
Diolch i bawb gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at waith Wythnos Cymorth Cristnogol ym Mis Mai. Diolch am y cyfraniadau a roddwyd gan ein haelodau i stondin Stafell Ymolchi y Tabernacl yn y Bore Coffi, i'r rhai fu yn casglu yn eu strydoedd ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at gyfanswm arbennig Porthcawl o dros £8,000 eleni.

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL
Llongyfarchiadau i John Berry ar gael ei anrhydeddu gyda'r BEM yn rhestr anrhydeddau y Frenhines

LLONGYFARCHIADAU
Mae yn braf cyhoeddi hefyd fod Huw Thomas mab yng nghyfraith Janet Hopkin wedi derbyn yr OBE yn yr un rhestr anrhydeddau Mae Janet yn ffrind da i'r capel ac yn gefnogol iawn .

IEUENCTID Y CAPEL
Llongyfarchiadau i Aelwyd Porthcawl ar ei llwyddiant yn ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth Parti Cerdd Dant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst

Llongyfarchiadau hefyd i Teilo Evans ar gael ei benodi yn gyfarwyddwr cerdd i Gôr Coleg St Andrews yn yr Alban.

Dymunwn yn dda i holl ieuenctid yr Eglwys yn eu gwahanol weithgareddau dros y misoedd nesaf a phob llwyddiant iddynt i'r dyfodol .